Cynllun Cryno'r Cyngor 2011/12

Beth yw Cynllun y Cyngor?

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn perfformio ac yn gwella'r ffordd mae'n darparu ei wasanaethau. Mae'r cynllun wedi'i greu o dair dogfen sy'n amlinellu ein gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau ar gyfer 2009 – 2012.

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o weledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2009-2012. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd y penderfynwyd ein blaenoriaethau a chrynodeb o'n perfformiad a gwybodaeth arall sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau.

Cynhyrchir Rhan 2 yn flynyddol ym mis Mehefin, yn fuan ar ôl penderfynu ar dargedau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Cynhyrchir Rhan 3 ym mis Hydref i gyfateb â rhyddhau data sy'n gadael i ni gymharu ein perfformiad gydag Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru.

Mae Cynllun y Cyngor yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i chi am yr hyn yw ein blaenoriaethau ar gyfer darparu, ac mae'n edrych ymlaen at y pethau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni ac yn ôl ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni.

Ar y tudalennau nesaf byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am flaenoriaethau'r Cyngor, yn dweud wrthych am y gwaith yr ydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella eleni.

Cynllun Cryno'r Cyngor yw'r ddogfen hon a'i phwrpas yw rhoi'r brif wybodaeth i chi o bob un o'r tair rhan, oll mewn un ddogfen. Mae'r tair rhan wahanol wedi'u hamlinellu ar y dudalen nesaf.

Rhan 1- Diffinio eich cyfeiriad

Mae hon yn rhoi trosolwg o weledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2009-2012 a'r weledigaeth ehangach o Strategaeth Gymunedol Wrecsam. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd y penderfynwyd ar ein blaenoriaethau a chrynodeb o'n perfformiad a gwybodaeth arall sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau. Mae'n cloi drwy amlinellu'r broses a ddilynwn i gynllunio a gwella ein gwasanaethau a'r ddeddfwriaeth sy'n tanategu'r gwaith yma.

Rhan 2- Gosod ein Targedau

Mae hon yn rhoi gwybodaeth am y targedau yr ydym wedi'u gosod i ni'n hunain fel ein bod yn symud tuag at gyflawni'r gwelliannau yr hoffem eu darparu yn y flwyddyn gyfredol (h.y. mis Ebrill hyd fis Mawrth). Mae'n cynnwys gwybodaeth am y broses a ddilynwn i wneud hyn a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'n gwaith.

Rhan 3- Ffocws ar ein Perfformiad

Mae hon yn rhoi gwybodaeth am y ffordd yr ydym wedi perfformio yn y flwyddyn flaenorol yn erbyn y targedau yr ydym wedi'u gosod i ni'n hunain (e.e. Ebrill 2010 hyd Fawrth 2011), sut mae ein perfformiad yn cymharu gydag eraill, yr hyn rydym wedi'i weld o adolygu ein gwasanaethau ac o ofyn barn pobl a sut rydym wedi defnyddio'r holl wybodaeth. Mae hefyd yn amlinellu'r broses a ddilynwn i gynllunio, monitro a gwerthuso ein gwasanaethau a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gwaith yma.



Beth yw blaenoriaethau'r Cyngor yn 2011/12?

Yn 2009 aethom ati i bennu tair Blaenoriaeth y Cyngor ac wyth Blaenoriaeth ar gyfer Gwella, lle'r oeddem eisiau canolbwyntio ein sylw i sicrhau gwelliant sylweddol rhwng 2009 a 2012.

Ar gyfer 2011 hyd 2012, ein blaenoriaethau o hyd yw-

Blaenoriaethau'r Cyngor

- Tai fforddiadwy
- Gwella gobeithion, dysgu a chyflawniad
- Gostwng allyriadau carbon a'r defnydd a wneir o ynni

Blaenoriaethau Gwella

- Bwyta'n iach a phobl yn gwneud mwy o ymarfer corff
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a chanfyddiad pobl o droseddu
- Helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol
- Ailgylchu a lleihau gwastraff
- Defnydd o wasanaethau a gwrando ar y cyhoedd a'u cynnwys mewn dylanwadu ar wasanaethau
- Hybu cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc i ddod yn ddwyieithog a hybu diwylliant Cymru
- Y rhaglen drawsnewid
- Diogelu ein plant

Ar gyfer pob blaenoriaeth rydym wedi pennu amrywiaeth o dargedau a gweithredoedd yr hoffem eu cyflawni yn 2011/12. Mae'r rhain wedi'u crynhoi ar y tudalennau a ganlyn.

Sut rydym yn mesur ein perfformiad

Wrth asesu ein perfformiad ar gyfer 2010/11 rydym wedi edrych ar ystod eang o wybodaeth sy'n cynnwys:

- Y cynnydd yn erbyn ein canlyniadau ar gyfer Blaenoriaethau ein Cyngor, ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a meysydd ein Cytundebau am Ganlyniadau
- Cymharu ein perfformiad gydag Awdurdodau eraill Cymru
- Canlyniadau o adolygiadau gwelliant a phrosiectau
- Adborth gan reoleiddwyr
- Adborth gan y cyhoedd
- Ein harbedion effeithiolrwydd i gwrdd â'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn y cyllidebau.

Bob chwarter, mae'r Penaethiaid Adran, y Tîm Rheoli Strategol, Aelodau a Phwyllgorau Craffu'n adolygu ac yn herio cynnydd yn erbyn amrywiaeth mawr o fesurau a gweithredoedd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu perfformiad cyffredinol ac i ganfod meysydd lle mae angen gweithredu'n adferol i roi gwaith yn ôl ar y trywydd cywir er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein canlyniadau.

Tai Fforddiadwy

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf a rhoi mecanweithiau yn eu lle i helpu i gwrdd â'r angen a welwyd am dai fforddiadwy hyd at 2021.

Yn 2011/12 byddwn yn cyflawni hyn drwy…

- Ddarparu 140 – 150 o unedau tai fforddiadwy

Ein perfformiad yn 2010/11...

Y nifer o gartrefi fforddiadwy a ddarparwyd yn 2010/11 oedd 83 o unedau. Roedd hyn yn llawer is na'r targed a'r rheswm am hyn yw'r sefyllfa economaidd bresennol. Fodd bynnag, mae 27 o safleoedd yn y portffolio terfynol, gyda chaniatâd cynllunio amlinellol ar 20 ohonynt.

Gwella Gobeithion, Dysgu a Chyflawniad

Pa ganlyniad ydyn ni eisiau ei sicrhau?

Mae rhieni, gofalwyr, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau'n cefnogi plant a phobl ifanc i symud ymlaen mewn addysg, swyddi a hyfforddiant i gyflawni eu potensial drwy orchfygu rhwystrau i ddatblygiad addysgol a chyflawniad.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

Fesur-

- Data am bresenoldeb a gwaharddiadau
- Safonau cyfnodau allweddol a lefel cyrhaeddiad
- Y gyfran o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg lawn amser, a'r gyfran sy'n parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Ein perfformiad yn 2010/11...

Mae'r flaenoriaeth hon ar y trywydd cywir o hyd a chafwyd datblygiad da ar y rhaglen Adeiladu Sgiliau peilot gwell. Cynhaliwyd y gostyngiad mewn pobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 11 ac y mae'n hysbys eu bod yn NEET yn 2009. Wrecsam hefyd oedd yr awdurdod oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru rhwng 2009 a 2010 ar gyfer y gyfran o bobl ifainc oedd yn gadael Blwyddyn 11 ac yn aros mewn addysg lawn amser.

Gostyngiad mewn Allyriadau Carbon a Defnydd o Ynni

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei gyflawni?

Gostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon a defnydd o ynni ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Ostwng canran y newid o 4% mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn ddomestig
- Datblygu cynlluniau carbon isel er mwyn cwrdd â'r targed ailgylchu 70% statudol newydd
- Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 50% o wastraff trefol
- Gweithredu'r prosiect PV/FIT solar ar draws 1500 o dai HRA ac eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor nad ydynt yn ddomestig
- Gostwng allyriadau carbon o'r rhwydwaith goleuadau stryd o 3% y flwyddyn
- Gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ddatblygu dangosydd carbon cymunedol
- Gweithio gyda phartneriaid i alluogi cymunedau carbon isel

Ein perfformiad yn 2010/11...

Mae cynnydd wedi parhau mewn darparu a chyflawni Blaenoriaeth y Cyngor ar Ostwng Allyriadau Carbon a'r Defnydd o Ynni dros 2010/11.
Cyflawnwyd y prosiectau gostwng carbon mewn nifer o feysydd, yn cynnwys ein hadeiladau nad ydynt yn ddomestig, goleuadau stryd, tai, gwastraff a'n fflyd cerbydau. Cymeradwywyd yr achos busnes ar gyfer y prosiect ynni adnewyddadwy PV solar ar draws ein stoc tai Cyngor ac adeiladau nad ydynt yn ddomestig ac mae gweithrediad y Strategaeth Cyfathrebiadau Carbon ar waith.

Bwyta'n Iach a Phobl yn Gwneud Mwy o Ymarfer Corff

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Galluogi pobl i wneud dewisiadau iach am fwyta'n iach a gwneud mwy o ymarfer corff.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Ostwng y canran o oedolion Wrecsam sy'n ordew neu'n rhy drwm
- Cynyddu'r canran o oedolion Wrecsam sy'n cwrdd â Chanllawiau
- Cynyddu'r canran o oedolion Wrecsam sy'n bwyta '5 y dydd'
- Gostwng y canran o blant ym mlwyddyn pedwar yr ysgol gynradd sy'n ordew neu'n rhy drwm
- Cynyddu'r nifer o famau Wrecsam sy'n dechrau bwydo ar y fron pan fo'r babi'n cael ei eni a'r canran sy'n dal i wneud hynny pan fo'r baban yn wyth wythnos oed

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Mae'r holl fesurau a gweithredoedd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ar gyfer y flwyddyn	• Mwy o ysgolion uwchradd i gydymffurfio â Safonau Bwyd a argymhellir yn y 'Blas ar Fywyd' • Cynyddu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol • Monitro'r effaith a gaiff gweithgareddau ar iechyd pobl leol

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Camddefnyddio Sylwed-dau a Chanfyddiad o Droseddau

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau i wneud ein cymuned yn lle diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag o a'i wneud yn fan lle bydd pobl yn teimlo'n ddiogel a hyderus.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Ostwng gwerthiannau alcohol dan oed
- Gostwng achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o 6%
- Gostwng yr ymatebwyr i'r Arolwg Troseddu Prydeinig sy'n teimlo bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn eu hardal i 9% (neu lai)

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Gostyngiad o 2.8% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol • Gostyngiad o 79.5% mewn pobl ifanc yn cael dedfryd o garchar	• Gostwng gwerthiannau alcohol dan oed • Sefydlu mwy o barthau rheoli galw digroeso

Defnydd o Wasanaethau a Gwrando ar y Cyhoedd a'u Cynnwys mewn Dylanwadu ar Wasanaethau

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Hoffem ei gwneud hi'n hawdd i gwsmeriaid gael gafael ar ein gwasanaethau, hoffem ddarparu gwasanaethau o ansawdd i safon y cytunwyd arni a hoffem ddefnyddio'r wybodaeth a gawn gan gwsmeriaid i wella gwasanaethau.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Sicrhau boddhad y cwsmer gyda Galw Wrecsam ar y ffôn (94%), wyneb yn wyneb (70%) ac ar y we (66%)
- Newid proffil y cyswllt â'r cwsmer i hunan-wasanaeth ar y ffôn (22%), wyneb yn wyneb (7%), ar y we (71%)
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r newidiadau i wasanaethau sydd wedi codi o ymgynghoriad a gwybodaeth y defnyddiwr

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Mae lefelau boddhad y cwsmer gyda'r Ganolfan Gyswllt wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn • Mae mwy o gwsmeriaid yn defnyddio'r ganolfan, tra bo amseroedd aros wedi parhau o fewn y targed • Lansio Senedd yr Ifanc a phecyn ymgynghori ar-lein	• Cynyddu'r nifer o ymgynghoriadau corfforaethol a wneir • Bydd systemau boddhad y cwsmer wedi'u gwella ymhellach a bydd rhagor o wasanaethau'r Cyngor wedi'u cynnwys

Gostwng Gwastraff ac Ailgylchu

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Casglu defnyddiau ailgylchadwy o gartrefi a chan gwsmeriaid masnachol a gwella'r rheolaeth ar wastraff dros ben.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 44% o wastraff trefol
- Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 50% o wastraff trefol a dderbynir ymhob safle amwynder gwastraff cartref

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Mae'r canran o wastraff trefol a ailddefnyddir, a ailgylchir neu sy'n cael ei gompostio wedi cynyddu i 47% o'r 42% yn y flwyddyn flaenorol • Mae'r canran o wastraff trefol a dderbynir ymhob safle amwynder gwastraff cartref sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio wedi cynyddu i 62% o'r 54% yn y flwyddyn flaenorol	• Gwella faint o gwsmeriaid gwastraff masnachol sy'n defnyddio cyfleusterau ailgylchu • Cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd wythnosol ar wahân

Hybu Cyfle Cyfartal i Blant a Phobl Ifanc ddod yn Ddwyieithog a Hybu Diwylliant Cymru

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Sicrhau cyfle cyfartal o ran cael lle mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd, sicrhau cyfle cyfartal i bawb sydd eisiau dysgu'n ddwyieithog, sicrhau cyfle cyfartal i dderbyn gwasanaethau'r cyngor ac i roi cyfleoedd i bobl wella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- 95% o ddisgyblion yn trosglwyddo rhwng safleoedd cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar i'r cynradd a 96% o ddisgyblion yn trosglwyddo rhwng y cynradd a'r uwchradd
- Gwneud arolwg blynyddol o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg
- Cyflawni yr un safonau gofal y cwsmer ar geisiadau/fynediad y cwsmer iaith Gymraeg ag ydym i'r cwsmer iaith Saesneg
- Rhoi'r seilwaith yn ei le ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ac yna gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Ymgynghorwyd yn llawn ar y cynlluniau ar gyfer ysgol Cyfrwng Cymraeg arfaethedig • Cynnydd sylweddol yn y nifer o ddisgyblion sy'n ceisio achrediad yn y Gymraeg fel ail iaith • Lefelau uchel o foddhad gyda'r lefel o wasanaeth a ddarperir yn yr iaith Gymraeg • Blwyddyn Diwylliant Wrecsam yn symud ymlaen yn dda gyda'r cynlluniau sydd ar waith ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus	• Y canran o ddisgyblion yn trosglwyddo o addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg • Er bod 76.3% o'r disgyblion wedi cael gradd A*-C yn y Gymraeg fel ail iaith, doedd hyn ond 3.7% yn fyr o'r targed • Gwaith i wella'r staffio ar gyfer Cymraeg fel ail iaith ar lefel TGAU

Diogelu ein Plant

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Diogelu plant a phobl ifanc yn Wrecsam.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

Fesur-

- Y nifer a'r canran o asesiadau cychwynnol a chraidd a gwblhawyd ar amser
- Y nifer o adolygiadau plant mewn angen a gwblhawyd ar amser
- Y nifer o grwpiau craidd a gynhalwyd ar amser
- Y canran o blant sy'n parhau i fod â gweithiwr cymdeithasol cymwysedig dynodedig

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Mae 95% o'r holl gyfeiriadau a dderbyniwyd dros y flwyddyn wedi derbyn penderfyniad amdanynt o fewn un diwrnod gwaith i'w derbyn • Roedd prydlondeb asesiadau wedi gwella hefyd i 40.7% o 27.8% yn y blynyddoedd blaenorol • Rhoddwyd gweithiwr cymdeithasol cymwysedig i'r mwyafrif mawr o blant y mae'r gwasanaeth yn ymwneud â nhw	• Er bod galwadau ar y gwasanaeth yn ymddangos fel pe baent yn sefydlogi, mae nifer y cysylltiadau a nifer y cyfeiriadau'n aros ar lefel uwch nag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol • Er bod cynnydd sylweddol, mae amseroldeb ac ansawdd asesiadau ac adolygiadau'n parhau'n feysydd lle mae rhagor o welliant wedi'i gynllunio yn 2011/12

Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Galluogi pobl hŷn i wneud dewisiadau deallus a gweithredol i sicrhau'r annibyniaeth fwyaf a safon uchel o fyw, fel bod modd iddynt fyw yn eu cartrefi cyn hired ag sy'n bosibl ac ymgysylltu â'u cymuned leol, ac er mwyn galluogi pobl hŷn i gael gafael ar amrywiaeth ehangach o letyau, gofal a gwasanaethau cymorth o safon.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Gynnal y gyfran o bobl (90%) sy'n dweud eu bod wedi dod yn fwy annibynnol o ganlyniad i ymyrraeth gan yr adran Gofal Cymdeithasol Oedolion
- 90% o bobl yn derbyn Gwasanaeth Teleofal nad ydynt yn derbyn Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol parhaus, sy'n dweud bod eu hannibyniaeth a'u lles wedi gwella o ganlyniad
- Dydy 55% o'r bobl sydd wedi derbyn Gwasanaeth Ailalluogi ddim angen gwasanaeth parhaus a brynir
- Mae'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau calendr i ddarparu Grant Cyfleusterau Anabl yn 275 o ddiwrnodau (neu lai)
- Gostwng i 200 y derbyniadau i'r ysbyty y gellid eu hosgoi
- Gostwng Gohiriadau mewn Trosglwyddiadau Gofal am resymau gofal cymdeithasol i uchafswm o 22 o ohiriadau
- Cyflwyno cynllun peilot y Model Gwasanaeth Wardeiniaid Gwarchod hwb a sbôc
- Gostwng y nifer o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i 480 o bobl
- Cynyddu'r graddau y mae cymorth a dderbynir gan Ofal Cymdeithasol Oedolion yn cwrdd ag anghenion y gofalwr hyd isafswm o 85%.

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Mae'r galw am deleofal wedi cynyddu • Mae targed amser aros y Grant Cyfleuster Anabledd ar gyfer y flwyddyn wedi'i gyflawni • Mwy na 100 o dderbyniadau i'r ysbyty wedi'u hosgoi	• Cwblhau adolygiadau o gynlluniau Cefnogi Pobl (SP) Pobl Hŷn sy'n weddill • Cwblhau'r gwaith i ailgomisiynu ac ailstrwythuro'r gwasanaeth gofal cartref o fewn y cyngor

Rhaglen drawsnewid

Pa ganlyniad ydym ni eisiau ei sicrhau?

Pwrpas y Rhaglen Drawsnewid yw cefnogi'r sefydliad i foderneiddio a gwneud y newidiadau sy'n ofynnol i ymateb yn effeithiol i'r amgylcheddau ariannol, technolegol a chwsmer sy'n newid y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod hyn wedi'i wneud mewn ffordd gynaliadwy sydd wedi'i rheoli a'i chynllunio.

Yn 2011/12 byddwn yn gwneud hyn drwy…

- Wneud adolygiadau trawstoriadol i wneud arbedion
- Parhau gydag ailstrwythuro rheolaeth gyda'r Penaethiaid Adran yn adolygu eu strwythur rheolaeth uwch eu hunain
- Prif ffrydio gwaith y rhaglen drawsnewid â blaenoriaethau'r Cyngor a darparu gwasanaeth bob dydd

Ein perfformiad yn 2010/11...

Cyflawniadau yn 2010/11	Meysydd i'w Gwella yn 2011/12
• Gweithredwyd strwythur newydd yr Awdurdod o Ebrill 2011 ac arbedwyd £439,000 • Gwnaeth bob adran adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau, gan bennu targed o ddarparu arbedion o £5,421,000 • Sefydlwyd adolygiadau trawstoriadol i ganfod arbedion mwy creadigol ac anoddach eu sicrhau yn y tymor hirach	• Darparu'r arbedion a'r gwelliannau a bennwyd

Cytundebau am Ganlyniadau

Mae cytundebau am ganlyniadau wedi'u seilio o amgylch nifer o feysydd ac maent wedi'u cysylltu ag amcanion strategol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn ymwneud ag anghenion pobl Wrecsam, ac felly maent yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth y Cyngor a Strategaeth Gymunedol Wrecsam. Mae crynodeb o'r perfformiad yn erbyn y Cytundebau am Ganlyniadau i'w weld yn y tabl isod-

Thema Strategol	Canlyniad	Hunan-asesiad cyffredinol
Gwell ansawdd a hyd bywyd gyda chanlyniadau tecach i bawb	Llai o Anghydraddoldeb mewn Iechyd	Rhannol lwyddiannus
Mae'r Amgylchedd yn Gynaliadwy ac wedi'i Ddiogelu	Gwella ansawdd a mwynhad o'r amgylchedd naturiol	Cwbl lwyddiannus
Gofal Cymdeithasol da yn caniatáu i bobl gael bywyd o well ansawdd	Rhoddir cefnogaeth fel bod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol	Cwbl lwyddiannus
Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian	Caffael mwy effeithiol ac effeithlon	Cwbl lwyddiannus
Mae Plant a Phobl Ifanc yn Tyfu i fod yn Ddinasyddion Gweithgar a Chyrraedd y Safonau Lles Uchaf Posibl	Gallu cael gafael ar Weithgareddau Chwarae, Hamdden, Chwaraeon a Diwylliannol	Cwbl lwyddiannus
Mae Cymru'n gymdeithas carbon isel a gwastraff isel ynni effeithiol	Cyfraniad at Liniaru Newid yn yr Hinsawdd	Cwbl lwyddiannus
Mae ein Hiaith, Diwylliant a Threftadaeth yn Ffynnu	Mae'r Gyfranogaeth mewn Chwaraeon a Hamdden Gweithredol yn Cynyddu	Cwbl lwyddiannus
Mae Gan Bobl y Sgiliau a'r Addysg i Fyw Bywydau Ffynian-nus a Chyflawn	Mae Pobl yn Cyfranogi mewn Swyddi a Chyfleoedd Dysgu	Cwbl lwyddiannus
Mae Cymunedau'n Llewyrchus a Diogel ac mae Cludiant Cynali-adwy a Thai Da ar Gael i Bobl	Mae Mwy o Gartrefi Fforddiadwy ar Gael	Rhannol lwyddiannus
Mae Economi Gref a Ffyniannus yn Helpu i Ostwng Tlodi	Llai o Bobl yn Byw mewn Tlodi	Rhannol lwyddiannus

Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

Mae'r data cymharol ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru'n dangos Wrecsam mewn sefyllfa dda; o'i gymharu â'r 21 o awdurdodau eraill yng Nghymru, mae Wrecsam yn y chwarter uchaf ar gyfer hanner y dangosyddion (12 dangosydd); y chwartelau canol ar gyfer trydedd ran y dangosyddion (8) ac yn y chwartel gwaelod ar gyfer dim ond chweched rhan o'r dangosyddion (4).

Rhagor o wybodaeth

Mae tair rhan Cynllun y Cyngor ar gael drwy'r we ar www.wrexham.gov.uk neu drwy gysylltu â'r Uned Perfformiad a Gwelliant ar 01978 292271 neu drwy ebostio statistics@wrexham.gov.uk